**Safbwyntiau Cyngor Cymuned Tregolwyn**

**ar**

**Argymhellion yr Adolygiad o Etholaethau'r Senedd**

Yr hyn sy'n dilyn yw safbwyntiau aelodau Cyngor Cymuned Tregolwyn ar argymhellion yr Adolygiad o Etholaethau'r Senedd:

Mae'n bosibl bod yr enw sydd wedi'i ddewis yn amhriodol, gan fod trigolion Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr yn Saesneg eu hiaith yn bennaf a dylai enw'r etholaeth arfaethedig adlewyrchu hyn. Er bod enwau arfaethedig rhai etholaethau yn hawdd eu hadnabod i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg, mae'r enw sy'n cael ei gynnig ar gyfer ardal Bro Morgannwg/Pen-y-bont ar Ogwr yn sicr yn methu yn hyn o beth. Rhaid cofio hefyd fod yna gynulleidfa ehangach ar gyfer hyn, nid trigolion Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr yn unig.

Mae ardaloedd Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr yn wahanol iawn. Mae'r naill yn ardal wledig iawn a'r llall yn cynnwys cymunedau trefol/cymoedd. Mae rhai pobl sy'n byw yn ardal wledig Bro Morgannwg o'r farn nad yw Cyngor Bro Morgannwg yn rhoi digon o gefnogaeth i ardal wledig y Fro. Ni fydd hyn yn newid trwy gyfuno'r ardal hon â Phen-y-bont ar Ogwr, ac fe allai waethygu. Bydd croesi ffiniau awdurdodau lleol yn ychwanegu at y dryswch i bobl, a bydd yn peryglu prosesau cyfathrebu effeithiol ac effeithlon; bydd angen i Aelodau o'r Senedd gyfathrebu â mwy nag un awdurdod lleol a'i drigolion (ac i'r gwrthwyneb).

Mae'n rhaid i ni wneud y pwynt ar adeg o bwysau ariannol i'r wlad, wrth i bobl Cymru dderbyn llai o wasanaethau cyhoeddus, ei bod yn amhriodol iawn cynyddu nifer yr aelodau o'r Senedd beth bynnag. Nid ydym yn derbyn y ddadl bod angen mwy o Aelodau o'r Senedd er mwyn ymdrin â'r cynnydd presennol a disgwyliedig ym musnes y Senedd. Mae parhau i wneud newidiadau mor sylweddol (hyd yn oed os credir eu bod yn fuddiol) heb gyfrifo'r costau i benderfynu a ydynt yn fforddiadwy yn peri pryder mawr, yn enwedig yn y sefyllfa economaidd bresennol. Dylai arian gael ei wario'n well ar flaenoriaethau fel y system ofal a'r GIG. Hefyd, mae angen rhoi mwy o ystyriaeth nid yn unig i gostau'r newid cychwynnol, ond hefyd i'r costau parhaus o gynnal y newidiadau hyn.

Mae gan Gymru fwy o gynghorwyr sir ar gyfer ei phoblogaeth o dair miliwn na'r Alban sydd â phoblogaeth o 5 miliwn. Roedd Comisiwn Williams a sefydlwyd gan Carwyn Jones wedi argymell gostyngiad sylweddol yn nifer y cynghorau sir yng Nghymru, ond mae'r argymhelliad hwn wedi'i anwybyddu. Deellir bod rhai pleidiau gwleidyddol yn dibynnu ar eu haelodau etholedig i wneud cyfraniad ariannol at Gronfeydd eu Plaid, a dyma'r rheswm o bosibl pam nad yw'r Senedd wedi gwneud dim. Fformiwla Barnett, a sefydlwyd ym 1978, yw'r mecanwaith sy'n darparu cyllid i Gymru. Mae'n annhebygol y bydd y fformiwla hon yn cael ei newid. Ar hyn o bryd mae'r incwm o'r Fformiwla hon yn cael ei frigdorri gan y Senedd i ariannu ei gwasanaethau a'i phrosiectau ei hun, a rhoddir dyraniad i bob prif awdurdod yng Nghymru. Yn ein barn ni, mae cynyddu nifer yr aelodau o'r Senedd yn annoeth ac yn gostus. Nid yw cael mwy o aelodau yn golygu y byddant yn cael mwy o effaith. Mae'n bosibl na fydd mwy o aelodau yn gallu lleihau'r llwyth gwaith oherwydd yr angen i gyfathrebu â mwy o bobl yn y Senedd a thu hwnt. Cyn cymryd unrhyw gamau, mae angen i'r Senedd asesu effaith pob aelod a'i effeithiolrwydd er mwyn benderfynu sut y gallai weithio'n ddoethach h.y. system well o atebolrwydd a datblygiad

proffesiynol. Dwi'n meddwl bod rheolwyr pêl-droed yn cael amser llawer anoddach y dyddiau hyn! Efallai y dylid rhoi cynnig ar gyflwyno cynnydd llai yn nifer yr aelodau yn gyntaf e.e. 4 aelod i bob etholaeth yn hytrach na 6.

Bydd ehangu maint y Senedd yn lleihau'r arian sy'n cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol, ac ar hyn o bryd mae pob un o'r prif awdurdodau yn nodi nad oes ganddynt ddigon o arian i glirio eira a rhew nac yn wir i gynnal y priffyrdd. Bydd y gyllideb arfaethedig sy'n cael ei dyrannu i ehangu'r Senedd yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer pobl Cymru. Yn hytrach na defnyddio arian i gynyddu maint y Senedd, dylid ei ddefnyddio i wella ein gwasanaethau cyhoeddus sy'n tanberfformio'n druenus. Ni fydd pennau parablus ychwanegol yn gwella gwasanaethau lleol i bobl Cymru.

I gloi, mae'n ymddangos bod y newidiadau hyn wedi'u hanelu at greu system lai democrataidd sydd o fudd i rai pleidiau yn fwy nag eraill. Bydd y Senedd yn gwneud cam gwag difrifol os yw'n rhoi'r cynigion hyn ar waith.